

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I:	(i) Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (ii) Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
DYDDIAD:	(i) Dydd Mawrth, 1 Gorffennaf, 2014, 2pm (ii) Dydd Iau, 24 Gorffennaf 2014, 2pm
PWNC:	Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol – Diweddariad ar Gynnydd
CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL:	Arthur Owen, Gwen Carrington, Gwynne Jones
AWDUR YR ADRODDIAD: Ffôn: E-bost:	Danielle Edwards 2151 DanielleEdwards@ynysmon.gov.uk

1. Pwrpas yr Adroddiad

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar gynnydd i'r Pwyllgorau Sgriwtini mewn perthynas â'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol gan gynnwys:

- Cefndir
- Llywodraethiant a Phortffolios
- Rôl Sgriwtini
- Sefydlu Trefniadau Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Cynnydd a Chyflawniadau
- Camau Nesaf

2. Cefndir

Mae Cynllun Trawsnewid Ynys Môn yn nodi tri o Fyrddau Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol (Byrddau) i oruchwylio a gyrru *rhaglenni a phrosiectau newid* o fewn y Cyngor a chyda phartneriaid cydweithredol allanol:

- 2.1 **Y Bwrdd Rhaglen Ynys Ynni** – Canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn datblygu ei gynlluniau adfywio gyda'i bartneriaid a'r gymuned. Adfywio cymunedau, rhoi sylw i sgiliau, tai, isadeiledd ac amgylchedd yr Ynys.
- 2.2 **Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaethau** - Sicrhau y gweithredir system gadarn ar gyfer rheoli i bob gwasanaeth; goruchwylio'r gwaith o wella perfformiad gwasanaethau sydd mewn trafferthion; gweithredu cynlluniau effeithlonrwydd a thrawsnewid/moderneiddio gwasanaethau rheng flaen.
- 2.3 **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Busnes** - Trawsnewid y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu'n fewnol a'i ddiwylliant. Yn arbennig felly, sicrhau bod gan y sefydliad y gweithdrefnau busnes, yr arbenigedd, y gweithlu, yr ymddygiad, y dechnoleg, y cynlluniau a'r llywodraethiant angenrheidiol.
- 2.4 Mae'r tri Bwrdd yn goruchwylio, yn rhoi cyfeiriad ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ynghylch cyllido rhaglenni a phrosiectau newid. Mae hyn yn rhoi hyder bod y buddion a ragwelir i'r Cyngor a chymunedau Môn yn cael eu gwireddu ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cyflawni yn unol ag amcanion corfforaethol Ynys Môn a themâu diwylliant trawsnewid.
- 2.5 Mae'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol wedi bod yn rhedeg am ychydig dros flwyddyn.

3. Llywodraethiant a Phortffolios

- 3.1 Mae aelodaeth y Byrddau wedi ei sefydlu. Maent yn cael eu cadeirio gan Gyfarwyddwr Corfforaethol ac mae un ai'r Prif Weithredwr neu'r Dirprwy Brif Weithredwr yn mynychu. Maent hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o blith; Aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Aelodau Sgriwtini, Penaethiaid Gwasanaeth, staff (6 thema allweddol), a'r Swyddfa Rheoli Rhaglen Gorfforaethol.
- 3.2 Mae'r Model Llywodraethiant ar gyfer y Byrddau wedi ei fabwysiadu (gweler Atodiad 1).
- 3.3 Datblygwyd Cylch Gorchwyl i bob un o'r tri Bwrdd a chytunwyd arnynt yn y Byrddau unigol.
- 3.4 Mae '*Proses ar gyfer Cychwyn ac Adrodd ar Raglenni/Prosiectau*' wedi ei mabwysiadu – er mwyn sicrhau ein bod yn medru cyflawni ein blaenoriaethau uchel (amcanion corfforaethol)
- 3.5 Cytunwyd a dilynwyd y meini prawf ar gyfer blaenoriaethu'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn portffolio pob Bwrdd. Maent yn cymryd i ystyriaeth y gyrwyr ar gyfer: *Hunanasesu; Cynllun Gwella; Rheoli Asedau; Gweithgareddau Rheoleiddiol; Risgiau; Cynllun Corfforaethol; Arbedion Effeithlonrwydd.*
- 3.6 Lluniwyd '*Map o Raglenni a Phrosiectau Blaenoriaeth*' i gyfathrebu rhaglen a phrosiectau ym mhob portffolio (gweler Atodiad 2).
- 3.7 Mae'r dull hwn o weithredu wedi ei gymeradwyo gan Swyddfa Archwilio Cymru.

4. Rôl Sgriwtini

- 4.1 Mae cynrychiolaeth o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini yn gwasanaethu ar bob un o'r tri Bwrdd, gan roi cyfle i nodi meysydd lle gall rôl Sgriwtini ychwanegu gwerth un ai o fewn y Byrddau eu hunain neu trwy'r broses Sgriwtini.
- 4.2 Yn ogystal â derbyn negeseuon cyfathrebu cyffredinol o'r cyfarfodydd, rhennir cofnodion cyfarfodydd y Byrddau gyda'r Rheolydd Sgriwtini ac wedyn gyda'r ddau Bwyllgor.
- 4.3 Cafwyd trafodaethau i sicrhau bod y Rheolydd Sgriwtini yn ymwybodol o ba bryd y mae cynhyrchion yn debygol o fod ar gael ar draws y portffolios, sy'n llywio blaenraglen waith pob Pwyllgor.
- 4.4 Gwahoddwyd Aelodau o'r Pwyllgorau Sgriwtini i ddod i hyfforddiant aelodau Bwrdd PRINCE2 ym mis Tachwedd 2013.

5. Sefydlu Trefniadau Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau(gan gynnwys Hyfforddiant)

- 5.1 Mae'r Awdurdod wedi penderfynu ar PRINCE2 fel yr amgylchedd ar gyfer cyflawni prosiectau. I gefnogi hynny cymerwyd nifer o gamau llwyddiannus:
 - Datblygwyd a mabwysiadwyd cyfres lawn o ddogfennau ac adroddiadau rheoli Prosiectau a Rhaglenni ar gyfer CSYM.
 - Datblygwyd Geirfa Terminoleg sydd bellach ar gael ar MonITor.

- Rhoddwyd hyfforddiant PRINCE2 ar draws y sefydliad, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer y rheini sy'n gwasanaethu ar y Byrddau Prosiect a Rhaglen.
- Sefydlwyd trefniadau llywodraethu ar gyfer Rhaglenni/Prosiectau penodol (lle roedd hynny'n briodol) ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau allweddol, gyda chynrychiolaeth o blith aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini. Mae cofrestr o'r Byrddau a'r Aelodaeth wedi ei datblygu a'i rhannu gyda'r UDA.
- Fel rhan o'r dogfennau Prosiectau a Rhaglenni, rhoddir cymorth i ddatblygu Cofrestrau Risg sy'n bwydo i mewn i Gofrestr Risg ar gyfer portffolios y Byrddau unigol.
- Sefydlwyd proses i geisio sicrhau bod prosiectau a thasgau yn cael eu nodi fel gweithgareddau yng '*Nghynlluniau Darparu Gwasanaeth*' y gwasanaethau perthnasol (cynllunio busnes).
- Mae Cofrestr lawn o Brosiectau a Thasgau bron wedi ei chwblhau. Mae'r gofrestr hon yn manylu, ymysg pethau eraill, ar y rhyngwynebau a'r rhyngddibyniaethau gyda gwasanaethau a phrosiectau/tasgau eraill, pa brosiectau/tasgau sy'n gweithio i gwrdd â'n gyrrwyr allweddol ar gyfer y sefydliad, gan nodi prosiectau cydweithredol.

6. Cyfathrebu ac Ymgysylltu

- 6.1 Mae cyfarfodydd y Penaethiaid a'r UDA yn cael diweddariadau rheolaidd ar brosiectau penodol. Anfonir cofnodion y Byrddau ar e-bost i'r grwpiau hyn yn dilyn pob cyfres o gyfarfodydd ac mae Cadeiryddion y Byrddau unigol yn rhoi diweddariad ar y negeseuon allweddol o'r cyfarfodydd.
- 6.2 Cyfrifoldeb y cynrychiolwyr Sgriwtini ar y Byrddau yw adrodd yn ôl i'w Pwyllgorau perthnasol. Yn ogystal, rhennir cofnodion cyfarfodydd y Byrddau gyda'r Rheolydd Sgriwtini ac fe'u rhennir wedyn gyda'r ddau Bwyllgor Sgriwtini unigol (gweler rhan 4).
- 6.3 Mae *Rheolwr y Rhaglen Gorfforaethol* yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Rheolwyr Tasg/Prosiect/Rhaglen ar draws yr Awdurdod i'w cynorthwyo i ddeall a mabwysiadu'r prosesau a'r diwylliant newydd.
- 6.4 Mae tudalennau gwe yn fyw ar MonITor sy'n rhoi gwybodaeth am y Cynllun Trawsnewid a'r Byrddau, canllawiau ar y dull corfforaethol o weithredu a'r prosesau ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau, ynghyd â Geirfa Terminoleg ryngweithiol. (<http://monitor.anglesey.gov.uk/transformation>)
- 6.5 Rhoddwyd cyflwyniad i'r Sesiwn Bartneriaeth a'r Pwyllgor Archwilio.

7. Cynnydd a Chyflawniadau

- 7.1 Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod o ddysgu i'r Awdurdod ond llwyddwyd i gyflawni nifer o bethau yn y cyfnod hwn ar draws rhaglen uchelgeisiol o drawsnewid a oruchwyliwyd ac a yrrwyd gan y Byrddau Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol. Mae'r dull hwn o weithredu wedi hwyluso'r gwaith o reoli a dysgu am y rhaglenni a'r prosiectau ar draws y cynllun trawsnewid. Bu'n rhaid adolygu blaenoriaethau ac amserlenni o fewn rhaglenni penodol wrth i'r gofynion o ran amser ac adnoddau ddechrau amlygu eu hunain. 'Roedd yn amlwg hefyd nad oedd y rhaglenni/prosiectau unigol mewn sefyllfa i ystyried y goblygiadau ar draws rhaglenni pan oeddent yn gosod amserlenni yn y lle cyntaf. Mae hynny wedi arwain at adolygu


a diwygio'r rhaglen. Mae'r newidiadau hynny wedi eu herio'n briodol a'u cymeradwyo.

- 7.2 Os ydym am barhau i wneud cynnydd effeithiol ac arwyddocaol mae angen arweinyddiaeth gadarn wrth i ni symud i gyfnod lle bydd angen gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut yr ydym yn gweithio a natur y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i ddinasyddion Ynys Môn. Bydd gwaith y prosiectau o fewn y Rhaglenni Trawsnewid yn sicrhau y bydd y penderfyniadau hyn yn rhai gwybodus a phrydlon, gyda dealltwriaeth glir o'r capasiti sydd raid wrtho i sicrhau bod yr Awdurdod yn llwyddo yn ei siwrnai drawsnewid.

8. Camau Nesaf

- 8.1 Blwyddyn gyfan ers eu sefydlu, mae adolygiad 'bôn i'r brig' yn cael ei gynnal o effeithiolrwydd y Byrddau Rhaglen Trawsnewid a'r prosesau cysylltiedig.
- 8.2 Mae *'Fframwaith Rheoli Prosiectau a Rhaglenni CSYM'* yn cael ei datblygu hefyd a fydd yn cyfeirio unigolion at ffynonellau o gymorth ar gyfer ysgrifennu achosion busnes a rheolaeth ariannol.
- 8.3 Y nod yn y tymor canol yw creu hwb gwybodaeth yn fewnol a chymuned arferion lle gall yr holl staff sy'n gweithio yn y maes rheoli prosiectau a rhaglenni ddod ynghyd i rannu arferion da a datrys materion sy'n gyffredin iddynt.


**ATODIAD 1 - Model
Llywodraethu:
Byrddau'r Rhaglen Drawsnewid**



RÔL

- Awdurdod a goruchwyliaeth
- Materion a uwchgyfeiriwyd o'r Byrddau Rhaglen i'r Pwyllgorau Sgrwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn unol â'r Cyfansoddiad a'r Cynllun Dirprwyo

Byrddau Rhaglen Partneriaeth/Cydweithio
(e.e. BGLI, Ynys Ynni)



- Gwireddu manteision y Cynllun Trawsnewid
- Sicrhau bod rhaglenni/ prosiectau yn cael eu rheoli a'u cyflawni.
- Dyrannu cyllid

Rheolydd Rhaglen Gorfforaethol

Dogfen Crynhoi Rhaglen

Dogfen Crynhoi Rhaglen

Dogfen Crynhoi Rhaglen

Rheolydd Rhaglen YF
Danielle Edwards (dros dro)

Rheolydd Rhaglen RhG:
Gethin Morgan

Rheolydd Rhaglen TB:
Danielle Edwards

- Cefnogi'r Byrddau Rhaglen
- Nodi'r holl ddibyniaethau a rhyngddibyniaethau
- Nodi a rheoli risgiau/materion
- Rheoli cyfathrebu
- Adrodd i'r Byrddau yn briodol ac yn amserol
- Rheoli Cyllidebau Rhaglenni

Y Penaethiaid

Grŵp Adolygu Perfformiad

- Adolygu mandadau arfaethedig
- Ystyried blaenoriaethu
- Uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd rhaglen priodol

Swyddfa Perfformiad, Cynllunio a Phrosiectau Corfforaethol (CPPPO)

Swyddfa Perfformiad, Cynllunio a Phrosiectau Corfforaethol (CPPPO)

- Cynnal cofrestr RhP
- Derbyn/cadw dogfennau
- Cynnal arferion RhP da

Adroddiadau Amlygu Rhaglen/Prosiect

Cynlluniau Darparu Gwasanaeth *(gan gynnwys Mandadau Rhaglenni/Prosiectau)*

Prosiectau a Rhaglenni BYW yn y Cyngor
(gan gynnwys cynlluniau cydweithio a phartneriaethau)

Rhaglenni a Phrosiectau NEWYDD yn y Cyngor
(gan gynnwys cynlluniau cydweithio a phartneriaethau)

- Nodi prosiectau/rhaglenni newydd yn unol â'r 'Proses ar gyfer Aseinio Prosiectau/ Rhaglenni Newydd'
- Cyflwyno dogfennau RhP, gan gynnwys adroddiadau.

Gyrrwyr					
Hunan Asesiad	Cynllun Gwella	Rheoli Asedau	Gweithgareddau Rheoleiddio	Risg	Cynllun Corfforaethol
Llywodraethu Gwybodaeth	Adferiad y Gwasanaeth Addysg (CGOA ESTYN)	Moderneiddio Ysgolion	Estyn CGOA	Ailstrwythuro PG (YM9)	Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Hŷn i Oedolion
Ailstrwythuro PG	Transformation of Leisure Service	Hamdden	AM - Cynllun Parhad Busnes	Arfarnu Swyddi (YM32, YM34)	Cynyddu Dewisiadau Tai a Lleihau Tlodi
Rheoli Rhaglen	Trawsnewid y Gwasanaeth i bobl Hŷn	Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn	AM - Rheoli Risg	Rheoli Asedau (YM22)	Adfywio ein Cymunedau a datblygu'r Economi
Strategaeth Hamdden ar gyfer y Tymor Canol	Parhau i Wella'r Gwasanaethau Plant	Swyddfeydd	AM - System Polisi Cydymffurfio	Strategaeth TG (YM7)	Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein hysgolion
Strategaeth TG		Llyfrgelloedd		Llywodraethu Gwybodaeth (YM31)	Trawsnewid ein TGCh
Datblygu Fframweithiau Adnewyddu ar gyfer Dwy Ardal (Prosiect y Tair Tref)			AM -Rheoli gwybodaeth		Canolbwyntio ar y Cwsmer, Dinasyddion a'r Gymuned
Ymgysylltiad Cymunedol			AM - Gweithredu System Civica		Trawsnewid ein darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer				Diwygio Lles (YM15)	
Arfarnu Swyddi				CGOA Estyn (YM23, YM24, YM25)	
Strategaeth Pobl				Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn (YM5)	
Rhaglen Moderneiddio ar gyfer Oedolion Hŷn				Parhau i Wella'r Gwasanaethau Plant (YM16)	
CGOA ESTYN				Tai Fforddiadwy (YM38)	
Cynllun Corfforaethol				Rhaglen Gwasanaethau Hamdden (YM37)	
				Rhaglen Rheoli Gwastraff (YM29)	

Byrddau Rhaglen Trawsnewid - Rhaglenni/Prosiectau Newid Blaenoriaeth UCHEL		
Ynys Fenter	Rhagoriaeth Gwasanaeth	Trawsnewid Busnes
<p>Rhaglen Ynys Ynni - Ffrydiau Gwaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> > (01) Addysg, Sgiliau > (02) Gadwyn Gyflenwi > (03) Newid Ymddygiad > (04) Isadeiledd Strategol > (05) Iechyd, Diogelwch a Lles Cymunedol > (06) Tîm Cyflenwi Ynni Enfawr > (07) Ymchwil a Datblygu <p>Rhaglen Adfywio:</p> <ul style="list-style-type: none"> > Prosiect Diwygio Lles (p) > Strategaeth Tai (t) > Cynllun Datblygu Lleol (t) > Prosiect Tai Fforddiadwy (LAMS) (p) <p>Cynllunio Rheoli Cyrchfan (p)</p> <p>Rhaglen Gyllido'r UE:</p> <ul style="list-style-type: none"> > Cronfa Fuddsoddi Leol GC (Pc) > Safleoedd ac eiddo Strategol Ynys Mon (Pc) > Ymweld â Mon (Pc) > Tair Tref (Pc) > Prosiectau arfordirol Ynys Mon (Pc) > Llwyddo'n Lleol (Pc) > Datblygu Fframwaith Gwell Geithio ar y Cyd (Pc) > Cymunedau Oed Gyfeillgar (Pc) > SET Prosiect Cymorth Technegol (Pc) > Cysylltiadau Gwaith Newydd (Pc) > Prosiectau Arweinir gan Menter Mon (x8) (Pc) <p>Cynllun Integredig Sengl (partneriaethau) (t)</p> <p>Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (Pr)</p>	<p>Rhaglen CGOA Estyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> > Safonau (p) > Rhaglen Moderneiddio Ysgolion (Rh) <p>Strategaeth Effeithlonrwydd (t)</p> <p>Rhaglen Moderneiddio Gofal Cymdeithasol i Bobl Hŷn</p> <ul style="list-style-type: none"> > Ailalluogi (p) > Gwell Llety (p) > Atodlen Trethi (t) > Caffael / Broceriaeth (t) <p>Rhaglen Rheoli Gwastraff:</p> <ul style="list-style-type: none"> > Datblygu Strategaeth Rheoli Gwastraff (t) > Ailgylchu (p) <p>Prosiect UCA (TLIU) (p)</p> <p>Rhaglen Gwasanaethau Hamdden:</p> <ul style="list-style-type: none"> > Datblygu Strategaeth Gwasanaethau Hamdden (t) > Allanoli parciau a chyfleusterau hamdden awyr agored (p) <p>Gwasanaethau Llyfrgell (p)</p> <p>Strategaeth Gwasanaethau Diwylliannol (t)</p>	<p>Rhaglen AD:</p> <ul style="list-style-type: none"> > Datblygu Strategaeth Pobl (t) > Arfarnu Swyddi a Statws Sengl (p) > Gwella Systemau AD a Data Gweithlu y gellir ei asesu (Northgate) (p) <p>Datblygu Strategaeth TG (t)</p> <p>Sgilio'r Awdurdod i ymdopi â'r Rhaglen Heriadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> > Datblygu'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau (t) > Strategaeth ar gyfer Technegau Systemau Diwastraff (t) <p>Gweithio'n gallach ar Ynys Môn (p)</p> <p>Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer (p)</p> <p>Adolygiad o Rôl a Swyddogaethau PG (t)</p> <p>Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth (p)</p> <p>Rhaglen Gwella Caffael (Rh)</p> <p>Cynllun Parhad Busnes (t)</p>

Byrddau Rhaglen Trawsnewid - Rhaglenni Prosiectau Newid Blaenoriaeth GANOLIG/ISEL		
Ynys Fenter	Rhagoriaeth Gwasanaeth	Trawsnewid Busnes
	<p>POTENSIAL (Cyllid UE) (Pc)</p> <p>Adolygiad Ariannol Priffyrdd (t)</p>	<p>System Tai Newydd - Gwasanaethau Rheoli</p> <p>Gwasanaeth Cyfreithiol ar y Ardoll Isadeiledd Cymunedol</p> <p>Cynllunio at Argyfwng (Pc)</p> <p>Gwarchod y Cyhoedd ar y Cyd</p> <p>Safonau Masnach ar y Cyd GC</p> <p>Fframwaith Cyfathrebu Mewnol (t)</p>

Byrddau Rhaglen Trawsnewid - Rhaglenni Prosiectau newid WEDI EU GOHIRIO AM Y TRO () /HEB GYCHWYN		
Ynys Fenter	Rhagoriaeth Gwasanaeth	Trawsnewid Busnes
<p>Taith i Waith (p)</p> <p>Ystwythder (p)</p> <p>Datblygu Sgiliau Newydd yn y Gymuned (p)</p> <p>Rhoi sylw o'r newydd i Arwyddion ar Draethau Baner Las (p)</p> <p>Prosiectau UE newydd (p)</p> <p>Rhaglen Partneriaeth Tirwedd a Chorsydd Môn (Rh)</p> <p>Trosglwyddo Benthyciad HRA (p)</p>	<p>Adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau cefnogol ar gyfer plant ag anableddau gyda golwg ar ailfodelu'r gwasanaeth i gydweithio â CS Gwynedd a phartneriaid (Pc)</p> <p>Ailstrwythuro'r gwasanaeth i wella'r modd y darperir gwasanaethau i wella'r ddarpariaeth ac ymchwilio i ddulliau newydd, mwy symudol a diwastraff o weithio (p)</p> <p>Anableddau Dysgu (p)</p> <p>Rhaglen Gofal Cwsmer (Rh)</p> <p>Archwiliad Môn o Gudiant Gofal Cymdeithasol (p)</p> <p>UPM (Un Pwynt Mynediad - Atgyfeiriadau Oedolion) (Pc)</p> <p>Rhaglen GCOH - Prosiect Dementia (p)</p> <p>Gwasanaeth Ieuencid (p)</p> <p>Gwasanaethau Plant - Gwelliant i Trawsnewid (p)</p>	<p>Cwrdd â gofynion y Ddeddf Cynaliadwyedd</p> <p>Prosiect Lleihau Carbon (p)</p> <p>Asesiad Comisiynu (p)</p> <p>Ethos Môn – Datblygu Capasiti Rheoli Newid a Rheolydd Môn (Cam 2) (p)</p> <p>Datblygu Datganiad Cydweithio (t)</p> <p>Gwobr Green Dragon (p)</p> <p>E-Gynllunio (p)</p> <p>Ail-leoli Staff Gwasanaethau Cymdeithasol (p)</p> <p>System TGCH RAISE (p)</p> <p>TGCh (Ardal Gofal)</p> <p>Bwrdd Gwella Civica (t)</p>

Byrddau rhaglen Trawsnewid - Rhaglenni /Prosiectau Newid sydd WEDI CAU		
Ynys Fenter	Rhagoriaeth Gwasanaeth	Trawsnewid Busnes
<p>Rhaglen Adnewyddiad Democratiaid (p)</p>	<p>Fframwaith Rheoli Perfformiad (p)</p> <p>Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (p)</p>	<p>Strategaeth Gyfathrebu (t)</p> <p>Sefydlu Rheoli Risg (t)</p> <p>Ethos Môn – Datblygu Capasiti Rheoli Newid a Rheolydd Môn (Cam 2) (p)</p> <p>System Dai Newydd - ORCHARD (Cam 1) (p)</p> <p>Cydweithio CTCC (bydd yn dod i ben)</p> <p>Trefniadau Oriau Hyblyg (Fflecsi) (p)</p> <p>Telerau ac Amodau Teithio Staff (p)</p> <p>Moderneiddio Cyllid (p)</p> <p>Gwobrwyon Staff (t)</p> <p>Datblygu'r Cynllun Corfforaethol (t)</p>

Allwedd:
 Rh - Rhaglen
 p - Prosiect
 t - Tasg
 Pc - Prosiect Cydweithio
 * - Am y tro